# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 10/02/21

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd Paul J. Rowlinson (Cadeirydd)

**Aelodau Cyngor Gwynedd:** Y Cynghorwyr Menna Baines, Judith Humphreys a Selwyn Griffiths

**Cristnogion a Chrefyddau eraill:** Eirian Bradley Roberts (Yr Eglwys Gatholig), Eurfryn Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru), Dashu (Bwdïaeth)

**Athrawon:** Miriam Amlyn (NASUWT), Cathryn Davey (UCAC)

**Swyddogion:** Buddug Mair Huws (Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG), Einir Rh Davies (Swyddog Cefnogi Aelodau) a Natalie Ll Jones (Swyddog Cefnogi Aelodau)

Cadarnhawyd, er bod nifer o ymddiheuriadau wedi dod i law, bod cworwm.

## 1. GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Mr Eurfryn Davies.

## 2. YMDDIHEURIADAU

Y Cyng. Dewi Roberts, Heledd Jones (NEU), Anest G Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru), Garem Jackson (Pennaeth yr Adran Addysg), Cemlyn R Williams (Aelod Cabinet Addysg) a Sion Huws (Adran Gyfreithiol)

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 4. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys.

## 5. COFNODION

Bu i'r Cadeirydd gadarnhau cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2020 fel rhai cywir, a'u llofnodi.

## 6. GWAHODDIAD GAN CYSAGAU CYMRU

Cyfeiriwyd at y gwahoddiad gan CYSAGAU Cymru i hyd at 4 aelod o CYSAG Gwynedd fynychu eu Cynhadledd Wanwyn, yn rhithiol, ar 23 Mawrth 2021.

**Penderfynwyd :**
Derbyn yr enwebiadau ar gyfer mynychu y gynhadledd:
Dashu
Cynghorydd Paul Rowlinson
Eurfryn Davies

Cynghorydd Selwyn Griffiths

## 7. ADRODDIADAU BLYNYDDOL CYSAG

Nodwyd pryder nad oes Adroddiad Blynyddol wedi ei chwblhau ar gyfer y cyfnod 2018-2019 na 2019-20 er ei fod yn ofyn statudol.

**Penderfynwyd :**
Derbyn y sefyllfa, ond annog y Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG i gysylltu gyda Bethan James ar fyrder i symud y mater ymlaen.

## 8. YMATEB GAN BRIFYSGOL BANGOR YNGLŶN Â DYFODOL AG

Atgoffwyd y Grŵp bod pryder wedi ei godi yn y cyfarfod diwethaf ynglŷn â dyfodol AG ym Mhrifysgol Bangor a bod y Cadeirydd wedi ysgrifennu at y Brifysgol i nodi y pryder hwn. Rhannwyd yr ymateb gyda CYSAG a theimlwyd y byddai yn fuddiol gwahodd darlithydd o'r Adran i roi cyflwyniad ar yr heriau yn sgil y cwricwlwm newydd.

**Penderfynwyd :**
Derbyn yr adroddiad ac ysgrifennu at y Dirprwy Is-Ganghellor gan gynnig iddo wahodd darlithydd o'r Brifysgol i fynychu cyfarfod nesaf CYSAG i roi cyflwyniad ar yr heriau sydd yn wynebu Addysg Grefyddol o fewn y Cwricwlwm newydd o fewn y dyniaethau.

## 9. ADDOLI AR Y CYD

Atgoffwyd y Grŵp o'r llythyr oedd wedi ei dderbyn gan CYSAGAU Cymru ynglŷn ag addoli ar y cyd tra mae ysgolion ar gau. Nodwyd y farn bod addoli ar y cyd yn rhan werthfawr o fywyd ysgol ond na ddylai fod yn rhoi pwysau ychwanegol ar athrawon yn y cyfnod anodd hwn. Nodwyd bod llythyr CYSAGAU Cymru yn cynnig adnoddau ac yn rhoi syniadau i'r perwyl. Nododd y Cadeirydd bod dyletswydd ar CYSAG i fonitro addoli ar y cyd ac ystyried a oes unrhyw beth arall y gallai CYSAG ei wneud i helpu?

Cyfeiriwyd at brofiadau aelodau o'r Pwyllgor a nodwyd bod ysgolion yn dod o hyd i'w traed erbyn hyn, ond eu bod o dan bwysau mawr o ran TGAU. Serch hynny, efallai ei bod yn amser nawr i geisio hyrwyddo normalrwydd. Nodwyd efallai fod y platfform yn ei le i athrawon allu ymateb i hyn? Nodwyd bod rhai asiantaethau wedi creu pethau, ar lefel leol yn barod allai fod o gymorth o bosib? Nodwyd pryder bod disgyblion yn treulio llawer o amser ar y sgrin, ac efallai y byddai gwasanaeth byw yn creu straen ychwanegol ormodol, a chadarnhawyd mai y peth diwethaf oedd CYSAG eisiau ei wneud oedd creu straen a phwysau ychwanegol.
Cyfeiriwyd hefyd at argaeledd gwasanaethau rhithiol a chwestiynwyd oni fyddai modd gyrru cyswllt rhithiol i un gwasanaeth, fyddai ar gael i bob ysgol? Byddai hyn yn lleihau straen ar athrawon ac yn caniatáu i gael mynediad at amrywiol grefyddau ar yr un pryd.
Soniwyd am un ysgol ble mae y Gweinidog lleol wedi paratoi gwasanaeth ar adegau penodol megis y Nadolig, ond wrth gwrs bod materion diogelu i'w hystyried cyn gallu cael presenoldeb y Gweinidog yn yr ysgol ei hun.

**Penderfynwyd :**
Derbyn yr adroddiad a nodi bod llawer o adnoddau ar gael - nid yn unig yr adnoddau a gyfeirir atynt gan CYSAGAU Cymru eu hunain ond yn y gymuned yn lleol. Cytunwyd i gasglu yr holl bwyntiau cyswllt at ei gilydd cyn anfon llythyr atgoffa at yr ysgolion yn amlygu yr adnoddau hyn, a'u hannog i ystyried addoli ar y cyd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a.m. a daeth i ben am 10.30 a.m.

**CADEIRYDD**